**Cyngor Sir Ddinbych - Denbighshire County Council**
**CANLLAWIAU AR GYFER YSGOLION**

## Cod Ymddygiad ar gyfer Rhieni/Gwarcheidwaid ac Ymwelwyr Eraill i'r Ysgol

Rydym yn ffodus iawn o gael rhieni sy'n gefnogol a chyfeillgar iawn a hebddynt ni fyddem yn gallu gweithio mor llwyddiannus. Mae ein rhieni yn cydnabod fod addysgu plant yn broses sy'n ymdrin â'r bartneriaeth rhwng rhieni, athrawon dosbarth a chymuned yr ysgol. Fel partneriaeth bydd ein rhieni yn deall pwysigrwydd perthynas gweithio da i alluogi ein plant fagu sgiliau a fydd yn angenrheidiol iddynt fel oedolion. Am y rhesymau hyn rydym yn parhau i groesawu ac annog rhieni/gwarcheidwaid i gymryd rhan yn llawn ym mywyd ein hysgol.

Diben y polisi yw atgoffa pob rhiant ac ymwelydd i'n hysgol am yr ymddygiad a ddisgwylir. Gwneir hyn fel y gallwn barhau i ffynnu a llwyddo mewn awyrgylch o gyd-ddealltwriaeth.

### Canllaw

Yn ogystal â dilyn y canllaw a nodir yn y Cytundeb Cartref-Ysgol, disgwyliwn i rieni a gwarcheidwaid:

- ddangos fod athrawon a rhieni yn cydweithio er budd eu plant;
- ddangos fod pob aelod o gymuned yr ysgol yn cael eu parchu gan felly osod esiampl dda o ran eu hymddygiad a'u hiaith eu hunain;
- geisio egluro fersiwn y plentyn o ddigwyddiadau gan ystyried safbwynt yr ysgol er mwyn datrys y sefyllfa'n heddychol;
- gywiro ymddygiad eu plentyn eu hunain yn enwedig yn gyhoeddus pan gall arwain ar wrthdrawiad neu ymddygiad ymosodol neu ymddygiad anniogel;
- ceisio help gan yr ysgol er mwyn datrys unrhyw faterion sy'n achosi pryder.

Er mwyn helpu i greu awyrgylch ysgol sy'n heddychol a diogel, nid yw'r ysgol yn cefnogi'r ymddygiadau canlynol gan rieni a gwarcheidwaid:

- ymddygiad aflonyddgar sy'n amharu neu'n bygwth amharu ar drefn dosbarth, swyddfa gweithiwr ysgol, ardal y swyddfa neu unrhyw ardal arall yn yr ysgol;
- bygwth niweidio'n gorfforol unrhyw aelod o staff yr ysgol, rhiant/gwarcheidwad arall neu fyfyriwr, pa un ai a yw'r ymddygiad yn cynnwys neu efallai'n cynnwys trosedd neu beidio;
- difrodi neu ddinistrio eiddo'r ysgol;
- gadael negeseuon e-bost neu ffôn sy'n ymosodol neu fygythiol;
- defnyddio trais corfforol yn erbyn plentyn neu oedolyn arall. Mae hyn yn cynnwys cosb gorfforol yn erbyn eich plentyn eich hunan ar safle'r ysgol;

- mynd at blentyn rhywun arall er mwyn trafod neu eu ceryddu am eu gweithredoedd tuag at eich plentyn eich hunan, (gellir ystyried mynd at blentyn mewn modd o’r fath fel ymosodiad ar y plentyn hwnnw a gall gael goblygiadau cyfreithiol);
- defnyddio iaith uchel a/neu gas, rhegi, melltithio, defnyddio iaith anghysegredig neu arddangos tymer;
- ysmygu neu ddefnyddio alcohol neu gyffuriau eraill;
- gweithredoedd megis poeri ar safle’r ysgol.

Pe bai unrhyw un o’r ymddygiadau uchod yn digwydd ar safle’r ysgol, efallai y bydd yr ysgol yn ei hystyried hi’n angenrheidiol cysylltu â’r awdurdodau priodol (gan gynnwys yr heddlu) a defnyddio ei phwerau i wahardd yr oedolyn o dan sylw rhag dod ar safle’r ysgol.

Ymddiriedwn y bydd rhieni a gwarcheidwaid yn cynorthwyo ein hysgol i weithredu’r polisi hwn a diolchwn ichi am eich cefnogaeth cyson.